Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg/College Road
Caerfyrddin/Carmarthen
SA31 3EQ

Cadeirydd/Chairman:
Andrew Green
Prif Weithredwr/Chief Executive:
Dr Ioan Matthews

Ffôn/Phone:
01267 610400
Ebost/Email:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

Dyfarniadau o'r Gronfa Datblygiadau Strategol

Dyddiad:	29 Mehefin 2015
Cyfeirnod:	14/11
At:	Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol a'r Swyddogion Cangen.
Ymateb erbyn:	Nid oes angen ymateb.
Cyswllt:	E-bost: prosiectau@colegcymraeg.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno rhestr o'r dyfarniadau diweddaraf o Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg yn 2014/15.

Dyfarniadau o'r Gronfa Datblygiadau Strategol

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno rhestr o'r dyfarniadau diweddaraf i'w cefnogi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol drwy'r Gronfa Datblygiadau Strategol.

2. Gwahoddwyd ceisiadau am grantiau o'r Gronfa drwy gylchlythyr a gyhoeddwyd ar 26 Mawrth 2015 (Cylchlythyr Cyf:14/08). Roedd y Cylchlythyr hefyd yn rhestru nifer o weithgareddau a phrosiectau sydd eisoes yn derbyn cefnogaeth gan y Coleg drwy'r Gronfa.

3. Ystyriwyd y ceisiadau ar 3 Mehefin 2015 gan banel yn cynnwys Dr Hefin Jones (Deon y Coleg) a dau aelod o Banel Grantiau'r Coleg, sef Catrin Stevens a Dr Dyfed Elis Gruffydd. Cymeradwywyd argymhellion y panel yn llawn gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yn eu cyfarfod ar 17 Mehefin 2015 ac mae penderfyniad y Bwrdd yn derfynol.

4. Ceir rhestr lawn o'r gweithgareddau cenedlaethol a phrosiectau cyfredol y mae'r Cyfarwyddwyr wedi cymeradwyo parhau eu cyllido yn 2015/16 yn **Atodiad A**. Yn achos rhai o'r prosiectau yma bydd adolygiad yn cael ei gynnal cyn darparu cyllideb tu hwnt i'r amserlen bresennol.

5. Rhestrir y prosiectau newydd a gymeradwywyd gan y Cyfarwyddwyr, ynghyd â'r amodau sy'n gysylltiedig â phob dyfarniad, yn **Atodiad B**.

6. Cefnogwyd ceisiadau ar sail eu potensial o ran datblygu darpariaeth (gan gynnwys darpariaeth gydweithredol), cynyddu cyfleoedd astudio, cynyddu nifer cofrestriadau, tystiolaeth o ymateb i alw/angen, a chreu adnoddau fydd o ddefnydd i nifer o sefydliadau. Roedd y Cylchlythyr, wrth wahodd ceisiadau, wedi nodi'n glir y rhoddid blaenoriaeth i:

    i. geisiadau a gyflwynwyd yn gydweithredol ar ran Panel Pwnc;
    ii. ceisiadau oedd yn ymateb i flaenoriaethau sydd wedi'u nodi'n glir oddi mewn i gynlluniau academaidd;
    iii. argymhellion sydd wedi eu cyflwyno yn sgil adolygiadau pynciol, lle bo hynny'n berthnasol; a

iv. phrosiectau posibl sydd wedi eu gwyntyllu'n ffurfiol yn ystod cyfarfodydd cynllunio rhwng y prifysgolion a swyddogion y Coleg.

7. Bydd y Coleg yn cysylltu gyda'r ymgeiswyr a'u sefydliadau er mwyn trafod y prosiectau arfaethedig yn fanwl cyn cytuno'n derfynol i gyllido'r prosiect a chyn bod y sefydliadau yn cychwyn ar y gwaith. Nodir amodau pob dyfarniad newydd yn Atodiad B.

8. Bydd cyllido prosiectau unigol yn amodol ar ddatblygu Cynllun Prosiect llawn, ynghyd ag amserlen bendant ar gyfer cwblhau'r gwaith, yn unol â threfn brosiectau'r Coleg. Bydd yr amserlen hefyd yn cynnwys amlinelliad o gamau penodol y prosiect. Mae templed ar gyfer llunio Cynllun Prosiect i'w ganfod ar wefan y Coleg: http://www.colegcymraeg.ac.uk/ffurflenni

9. Bydd y Coleg yn monitro pob prosiect trwy gyfarfodydd Bwrdd Prosiect tymhorol lle bydd y rheolwr prosiect yn cyflwyno Adroddiad Cynnydd i'r Coleg. Bydd y Coleg yn derbyn adroddiad ar gyllideb y prosiect unwaith y flwyddyn. Mae templed ar gyfer llunio Adroddiad Cynnydd i'w ganfod ar y wefan: http://www.colegcymraeg.ac.uk/ffurflenni

10. Yn achos ceisiadau sydd wedi cynnwys costau amser staff neu/ac elfennau eraill, bydd y Coleg yn gweithredu'n un egwyddor ag a ddefnyddir mewn perthynas â'r Cynllun Staffio Academaidd, sef i dalu costau cyflogaeth lawn (cyflog, yswiriant cenedlaethol a chyfraniad pensiwn y cyflogwr) ond nid unrhyw orbenion eraill.

11. Ni fydd y Coleg, o dan unrhyw amgylchiadau, yn cyfrannu at gostau amser staff a gyllidir drwy un o gynlluniau eraill y Coleg.

12. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i awgrymu y dylai rhai elfennau o brosiectau gael eu cynnwys yn nyletswyddau staff academaidd a noddir gan y Coleg drwy'r Cynllun Staffio Academaidd, a bydd y dyletswyddau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y cytundebau cyllido swyddi.

13. Ceisiadau am gyllid am **un flwyddyn yn unig** a gymeradwyir ac mae hynny'n gyson ag amodau'r Gronfa.

14. Bydd disgwyl i unrhyw adnoddau newydd a gynhyrchir yn sgil y dyfarniadau hyn gael eu lleoli ar y Porth a/neu'r Llyfrgell Ddigidol a bydd y Coleg yn gosod amserlen ym mhob achos ar gyfer trafod y manylion gyda'r rheolwr prosiect. Lle bydd galw ar wasanaeth staff canolog y Coleg, caiff hynny ei adlewyrchu yn y cynllun prosiect a'r amserlen.

15. Yn sgil trafod amodau a manylion y prosiectau arfaethedig gyda swyddogion y Coleg, gofynnir i'r sefydliadau gyflwyno Cynlluniau Prosiect llawn i'r Coleg erbyn 17 Gorffennaf 2015.

ATODIAD A

Rhestrir yn **Atodiad A** y gweithgareddau cenedlaethol a phrosiectau cyfredol a gymeradwywyd gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i'w parhau i'w cyllido yn 2015/16:

- Swyddogion Pwnc (gan gynnwys prosiectau a gydlynir ganddynt)
- Geiriadur Termau Addysg Uwch
- *Gwerddon*
- Digido, e-gyhoeddi a chorpws electronig (DEChE)
- Tystysgrifau Addysg Uwch rhan-amser yn y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas
- Cynllun Colegau Cymru
- Tystysgrif Cymhwysedd i Athrawon
- Darpariaeth Ôl-raddedig mewn Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol
- Prosiectau addysg uwch / dilyniant mewn sefydliadau addysg bellach
- Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru
- Prosiect Ehangu Mynediad

ATODIAD B

Rhestrir yn **Atodiad B** y prosiectau newydd a gymeradwywyd gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg i'w cyllido o gyllideb y Gronfa yn 2014/15:

	Disgyblaeth / Maes Pwnc	Teitl	Sefydliad	Amodau / Camau Nesaf
1	Maes Dilyniant	16-19 Llwybrau Dysgu	De Cymru	Cyllido Cynllun Peilot ar raddfa lai.
2	Gwyddoniaeth	Swyddog Datblygu Coleg Gwyddoniaeth	Abertawe	Cyllido gydag amodau yn dilyn trafodaeth gyda'r brifysgol.
3	Mathemateg	Cyhoeddi Llawlyfr Calcalws Mathemateg	Abertawe	Darparu cyfraniad at gostau cyhoeddi'r gyfrol, ond annog yr awdur i ymgeisio am gyllid cyhoeddi gan Brifysgol Abertawe yn ogystal.
4	Chwaraeon	Datblygu Rhaglen o Weithdai Seicoleg Chwaraeon i Hyfforddwyr Cymraeg	Bangor	Amodol ar dderbyn Cynllun Prosiect yn manylu ar y cynlluniau cydweithredol rhwng prifysgolion Bangor a Metropolitan Caerdydd.
5	Cyfraith	Llawlyfrau Cyfraith, Cyfrolau	Bangor	Manylion cyllidol y cais i'w trafod ymhellach cyn cytuno

		3 a 4		ar yr union grant a ddarperir.
6	Diwydiannau Creadigol	Llawlyfr Astudio Newyddiaduraeth	Caerdydd	Gofyn i'r ymgeisydd ddarparu manyleb llawn ar gyfer y gyfrol arfaethedig i'w ystyried eto cyn cefnogi'r prosiect.
7	Cynllunio	Cynllunio Trefol a Gwledig	Caerdydd	Union grant a ddarperir i'w gytuno ar ôl trafodaeth bellach gyda'r brifysgol, ac yn amodol ar dderbyn Cynllun Prosiect manwl.
8	Celf	Cynhadledd 'O'r Ysgol i'r Radd - Y Celfyddydau Gweledol'	PC:YDDS / Met Caerdydd	Cefnogi'r gweithgaredd oddi fewn i raglen waith y Swyddog Pwnc.
9	Cymraeg	Termiadur Beirniadaeth Theori Llenyddol	Abertawe	Cefnogi'r cais.